Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW B 20.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Ashleigh Dunn** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | 1. Dylid cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2015/16<br><br>2. Dylid cymeradwyo cynnwys y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer 2016/17 |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd:**<br>Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb sylfaenol yn sicrhau budd i'r amgylchedd drwy annog pobl Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ac yn ei dro bydd hynny'n sicrhau dealltwriaeth well o'n dull integredig o reoli adnoddau naturiol.<br><br>**Effaith ar yr economi:**<br>Amherthnasol.<br><br>**Effaith ar y gymuned:**<br>Trwy Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb effeithiol, byddwn yn deall sut y mae ystod eang o gymunedau'n cael mynediad i'n gwasanaethau a byddwn yn nodi unrhyw rwystrau a chyfleoedd i ddatblygu.<br><br>**Effaith ar wybodaeth:**<br>Mae hunanddatgeliadau'r staff yn ein galluogi i weld cyfansoddiad ein gweithlu a nodi tueddiadau dros gyfnod o amser, sy'n golygu bod modd i ni sicrhau ein bod yn caniatáu unigolrwydd. |

## Mater

1. Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn nodi'n benodol y camau'r ydym wedi'u cymryd i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol, ac mae'n nodi'r modd yr ydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. Mae'n ofynnol i ni sôn am unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol, a gwneud datganiad am effeithiolrwydd ein trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth.

2. Rhaid i ni ddangos cynnydd tuag at gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb a rhoi gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys data ynghylch y gweithlu a gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.

## Cefndir

3. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu achosion anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (gan gynnwys ein cwsmeriaid) a'r bobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r bobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

## Asesiad

### Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2015/16

4. Mae dyletswydd benodol arnom dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â chyflawniadau yng nghyswllt ein hagenda ar gyfer cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gyfansoddiad ein gweithlu gan ddefnyddio ein hystadegau ar sail hunanddatgeliadau, a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer 2016/17 er mwyn cyflawni amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2015/19.

| Rhai uchafbwyntiau allweddol yng nghyswllt Cydraddoldeb ar gyfer 2015/16 |
|---|
| Ym mis Awst 2015, cawsom achrediad gan gynllun 'Yn gadarn o blaid pobl anabl' y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n ceisio cadw pobl anabl mewn swyddi gan ddefnyddio'r ymrwymiad i warantu cyfweliad. |
| Yn ystod trydydd chwarter 2015/16, cafodd dau rwydwaith staff newydd eu cyflwyno gennym, sef Rhwydwaith y Bobl a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb o ran Rhyw a Menywod. |
| Cafodd ein modiwl ar gyfer hunanddatgeliadau ei lansio ar MyNRW ganol mis |

| |
|---|
| Hydref, a chafodd amrywiaeth eang o negeseuon i staff eu defnyddio er mwyn annog ymatebion. Yn ystod y pedwar mis cyntaf hyd at fis Chwefror 2016, rydym wedi gweld 58% o'r staff yn defnyddio'r system. |
| Ym mis Ionawr 2016, yn dilyn ein canlyniad meincnodi ar gyfer Cydraddoldeb, cawsom ein dyrchafu 78 o leoedd gan lwyddo i gyrraedd y 14eg safle yn y rhestr o gyflogwyr gorau yng Nghymru (roeddem yn y 160fed safle yn y DU). |
| Mae gwaith sy'n ymwneud ag asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt ein canolfannau ymwelwyr ar y gweill, a disgwylir y bydd adroddiadau ar gael ym mis Ebrill 2016 a fydd yn cynnwys argymhellion i wneud ein safleoedd yn fwy hygyrch. |

## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2016/17

5. Mae angen i bethau wella, fodd bynnag, ac fel sefydliad tryloyw rydym wedi datblygu camau gweithredu mesuradwy mewn meysydd lle mae angen i ni wneud mwy.

| Meysydd penodol lle mae angen i ni sianelu ein hymdrechion |
| --- |
| Gwella canlyniadau ein Harolwg Pobl o safbwynt cynhwysiant a thriniaeth deg, trwy barhau i wrando ar ein staff a gweithredu ar sail materion a fydd yn ein galluogi i fod yn sefydliad y mae pobl am weithio ynddo. Byddwn yn awr yn canolbwyntio ar ein cwestiynau sy'n benodol i Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi'u diweddaru, a byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu ein hystadegau ers canlyniadau meincnodi'r llynedd ac yn cynnwys blwch ar gyfer testun rhydd. |
| Mae angen i ni ddatblygu ein ffocws ar gwsmeriaid er mwyn i ni allu ymgysylltu ag unigolion a chymunedau ledled Cymru, gan gynnwys pobl o grwpiau a chymunedau sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/22 yn hanfodol os ydym am sicrhau ein bod yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i bron bob agwedd ar fywyd yng Nghymru. |
| Byddwn yn parhau i wella ein prosesau mewnol drwy ymgorffori cydraddoldeb yn ein prosesau caffael a thrwy symleiddio ein hadnodd ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. |

6. Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn nodi 18 o gamau gweithredu mesuradwy penodol ar gyfer y sefydliad, a fydd yn gofyn am weithredu cadarnhaol gan bob cyfarwyddiaeth er mwyn cyflawni ein strategaeth 'Datblygu Pobl a Thimau Cyfoeth Naturiol Cymru' yn llawn a chyflawni amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ddiweddar, buom yn dadansoddi'r wybodaeth a nodwyd mewn hunanddatgeliadau ac mae angen i ni neilltuo amser i fyfyrio ynghylch y cwestiwn 'beth am hynny'. Felly, mae'n bosibl y byddwn yn diwygio ein cynllun ar gyfer 16/17 yng ngoleuni'r ystyriaeth honno.

## Argymhelliad/Argymhellion

7. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol ar gyfer 15/16 a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer 16/17, er mwyn eu cyhoeddi.

**Prif risgiau**

8. Mae risgiau i enw da'r sefydliad yn ogystal â risgiau cyfreithiol ac ariannol ynghlwm wrth beidio â chyhoeddi ein hadroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

**Goblygiadau ariannol**

9. Dim.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

10. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn, ond bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yn dylanwadu ar asesiadau eraill o effaith ar gydraddoldeb.

**Mynegai i'r Atodiadau**

Atodiad 1 Tudalen 4 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2015/16 (mae Cynllun Gweithredu 2016/17 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w weld yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn, ar dudalen 33).